# BIP Cwm Taf Morgannwg

## Rhaglen Sylfaen













Fersiwn 2: Hydref 2024

# Croeso i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mae **Ysbyty'r Tywysog Siarl** ym Merthyr Tudful. I'r gogledd i'r dref mae prydferthwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac i'r de-orllewin mae Penrhyn Gŵyr a'i draethau sydd heb eu hail.
Mae Caerdydd, prifddinas Cymru, gwta 25 milltir i ffwrdd ar hyd rhan ddeuol o gefnffordd (yr A470) sy'n rhedeg yr holl ffordd o dde Cymru i'r gogledd.

Lleolir **Ysbyty Brenhinol Morgannwg** mewn ardal led-wledig, tair milltir o'r M4 a 13 milltir o ddinas Caerdydd. Mae'r ysbyty o fewn cyrraedd hwylus i Fryste, Pen-y-bont ac Ogwr, Abertawe a de Cymru i gyd.
Mae'r ysbyty wedi ei amgylchynu gan ardaloedd o brydferthwch eithriadol gydag Arfordir Treftadaeth Morgannwg, Penrhyn Gŵyr, Parc Treftadaeth Cwm Rhondda a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oll o fewn pellter gyrru byr i'r ysbyty.

Mae **Ysbyty Tywysoges Cymru** yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, cwta 1.5 milltir o'r M4 ac 20 milltir i'r gorllewin i'r brifddinas.
Mae cefn gwlad godidog ac arfordir prydferth yn o fewn pellter teithio hwylus i'r ysbyty. O fewn tafliad carreg mae traethau Southerndown, Aberogwr, Llanilltud Fawr a Phorthcawl, ac ychydig ymhellach i ffwrdd mae traethau bendigedig Penrhyn Gŵyr.

# Gweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Proffil

Dyfarnwyd statws Bwrdd Iechyd Prifysgol i Fwrdd Iechyd Cwm Taf ym mis Gorffennaf 2013, a daeth yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn swyddogol yn Rhagfyr 2013.

Ar 1 Ebrill 2019 daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Fwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Cwm Taf Morgannwg ar ôl cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer pobl ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd.

Erbyn hyn, mae BIP Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl ar gyfer y 450,000 o bobl sy'n byw mewn tair Bwrdeistref Sirol – Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Gyda bron i 12,000 o staff, mae ein gweithlu wrth galon y Bwrdd Iechyd Prifysgol a hi yw einioes llawer o'r cymunedau a wasanaethwn hefyd. Rydyn ni'n cymryd ein rôl fel un o gyflogwyr mwyaf yr ardal o ddifri calon, sy'n amlwg yn ein gwaith partneriaeth helaeth, ein hymrwymiad i'n cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol a'r pwysigrwydd rydym yn ei osod ar feithrin perthnasau gyda'n staff a'r gymuned.

Mewn lleoliad delfrydol rhwng Caerdydd, prifddinas Cymru, i'r de, Porthcawl, y dref glan môr i'r gorllewin, a gyda golygfeydd godidog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd, rydyn ni'n gweithredu mewn cymuned fyw, sy'n gyfoeth o hanes a threftadaeth.

Mae'r ardal yn frith o hanes, ac mae'n adnabyddus ledled Prydain ac ar draws y byd i gyd fel un o rymoedd mawr y chwyldro diwydiannol a'r diwydiant glo.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn arloesi er mwyn gwella gofal clinigol. Rydyn ni'n arbennig o falch o'n Canolfan Academaidd ym Merthyr Tudful, sy'n helpu i hyfforddi meddygon y dyfodol mewn meddyginiaeth gymunedol.

Os dewch chi i weithio yng Nghwm Taf Morgannwg, byddwch chi'n sicr o gael croeso cynnes Cymreig; cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol ac amgylchedd clinigol sy'n arloesi er mwyn gwella.

# Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ysbyty'r Tywysog Siarl
Ffordd y Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9DT

01685 721721

Mae gan **Ysbyty'r Tywysog Siarl** ym Merthyr Tudful ddarpariaeth tua 410 gwely, ac mae'n darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol acíwt brys a dewisol, Gofal Dwys a Gofal y Galon; gwasanaethau obstetreg dan arweiniad meddygon ymgynghorol gydag Uned Gofal Arbennig i Fabanod, meddyginiaeth bediatrig ar gyfer cleifion mewnol dan arweiniad meddygon ymgynghorol, a Chanolfan Gofal Brys brysur. Mae yna saith theatr ar gyfer llawdriniaeth.

Mae'r ysbyty'n darparu gwasanaethau isranbarthol y geg, yr ên a'r wyneb, holl gwmpas y gwasanaethau i gleifion allanol a ddarperir gan arbenigwyr lleol ac ar ymweliad, ynghyd ag amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diagnosteg gan gynnwys MRI a CT 64 haen. Darperir y cyfleusterau diweddaraf o fewn yr Adran Radioleg, ac nid yw'r ysbyty'n defnyddio ffilm fel bod delweddau ac adroddiadau digidol ar gael i glinigwyr ar draws y safle.

Mae Canolfan Gofal Brys Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi ailwampio'r gwasanaethau brys 'blaen tŷ' yn llwyr trwy integreiddio'r uned damweiniau a brys, y tu allan i oriau a'r uned asesu meddygol (MAU) mewn un canolfan fodern sy'n addas at ei phwrpas.



# Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ysbyty Brenhinol Morgannwg
Ynysmaerdy
Llantrisant
Pont-y-clun
CF72 8XR
01443 443443

**Mae gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg** ger Llantrisant tua 545 gwely ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleusterau i gleifion mewnol, achosion dydd a chleifion allanol ynghyd â chyfleusterau Damweiniau a Brys a Diagnosteg. Mae yna Uned Iechyd Meddwl Acíwt ar safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg hefyd. Mae yna amrywiaeth o wasanaethau Gofal Critigol, gan gynnwys Uned Gofal Dwys, Uned Dibyniaeth Fawr, Undeb Gofal Arbennig i Fabanod ac Uned Gofal Ddwys i Fabanod Newydd-anedig. Mae yna naw Theatr ar gyfer Llawdriniaeth hefyd. Darperir y cyfleusterau diweddaraf o fewn yr Adran Radioleg ac nid yw'r ysbyty'n defnyddio ffilm fel bod delweddau ac adroddiadau digidol ar gael i glinigwyr ar draws y safle. Mae'r gwasanaeth Patholeg yn hollol fodern, gydag offer arbenigol a nifer dda o staff. Cyflwynwyd arloeseddau modern er mwyn caniatáu i staff awdurdodedig weld canlyniadau ar sgriniau cyfrifiadur ym mhob ward a chlinig.

# Ysbyty Tywysoges Cymru

Ysbyty Tywysoges Cymru
Ffordd Coety
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 1RQ
01656 752752

Ysbyty cyffredinol ardal yw **Ysbyty Tywysoges Cymru.** Agorodd ym 1985.

Mae'r ysbyty'n darparu amrywiaeth cynhwysfawr o wasanaethau llawfeddygaeth a meddygaeth acíwt ar gyfer cleifion o bob oedran, gan gynnwys gwasanaethau i gleifion mewnol, cleifion allanol a gwasanaethau dydd. Cynigir y gwasanaethau uchod o fewn y cyfleusterau, sy'n cynnwys Adran Ddamweiniau a Brys, llawfeddygaeth frys a chynlluniedig, meddygaeth frys, gynaecoleg, uned obstetreg ac i fabanod newydd-anedig, gwasanaethau pediatreg, gofal iechyd meddwl acíwt, prif theatrau llawdriniaeth ac Uned Llawdriniaeth Dydd bwrpasol. Yn ogystal, mae gan yr ysbyty Uned Gofal Dwys/Dibyniaeth Fawr, gwelyau gofal y galon, uned arhosiad byr a chwmpas cyflawn y gwasanaethau diagnosteg a chymorth, canolfan gofal lliniarol a lolfa rhyddhau cleifion.

## Y Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Meddygol

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch croesawu chi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), ac i'r Tîm Addysg Feddygol yn benodol.

Yn ystod eich cyfnod gyda ni, cewch raglen gyflwyno, sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n cael ei dylunio o gylch eich anghenion chi. Bydd hyn yn eich taclu â'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gychwyn yn eich amgylchoedd newydd.

Mae gan yr Adran Addysg Feddygol bolisi drws agored, a bydd yn sicrhau bod gennych yr holl bwyntiau cyswllt sydd eu hangen arnoch, yn eich cynorthwyo ag unrhyw ymholiadau sydd gennych, ac yn eich helpu chi i ffeindio'ch traed yn eich swydd.

Fel Adran Addysg Feddygol, rydyn ni'n cynnig y canlynol i fyfyrwyr, meddygon ar raddfeydd hyfforddi a meddygon eraill:

- **Hyfforddiant a datblygiad strwythuredig wedi eu teilwra at eich anghenion**
  Mae'r holl addysgu'n dod o fewn cylch gorchwyl cwricwlwm rhaglen C21 a gofynion Ysgol Arbenigol / GMC ac mae'n cael ei fonitro'n ofalus gan Ddeoniaeth Cymru (AaGIC) er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael addysg o safon uchel yn ystod eich cyfnod gyda BIPCTM.
- **Cyfleoedd i wella ansawdd**
  Mae cyfleoedd ar gael i gyflawni prosiectau Gwella Ansawdd yn rhan o'r tîm amlddisgyblaeth, a chynhelir digwyddiadau arddangos blynyddol.
- **Amgylchedd dysgu modern, eang a chyffyrddus**
  Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eich amgylchedd yn eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd dysgu.
- **Addysgu a goruchwyliaeth frwdfrydig a chefnogol**
  Mae cyfleoedd dysgu achrededig ar gael i'r holl hyfforddwyr er mwyn cynorthwyo eu hymrwymiad parhaus i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r Adran Addysg Feddygol yn gweithio ar y cyd â'r Gyfadran, a'u datganiad cenhadaeth yw:

**"Darparu'r gofal a'r driniaeth orau i gleifion; cymryd rhan mewn addysgu o safon uchel â gwaith ymchwil a datblygu arloesol er mwyn i bobl broffesiynol heddiw ddod yn arweinwyr clinigol y dyfodol yng Nghymru."**

Cynorthwyir aelodau'r Gyfadran gan Uwch-feddygon Anrhydeddus a Darlithwyr Anrhydeddus, Tiwtoriaid Coleg, Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol Penodol.

Fe ffeindiwch chi Dimau Olraddedig cyfeillgar a hawdd siarad â nhw yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Byddwn ni'n cynnig cymorth i chi trwy gydol eich amser gyda ni, o wybodaeth am eich gofynion asesu ac

arfarnu i gymorth i ddelio ag unrhyw anawsterau rydych yn eu hwynebu. Rydyn ni'n darparu rhaglen addysgu reolaidd ar gyfer meddygon Sylfaen ac yn darparu pob math o gyfleoedd i chi rannu adborth â ni ar bob agwedd ar eich hyfforddiant a'ch bywyd gwaith.

## Y Ganolfan Addysg Feddygol – Cysylltiadau

Arweinydd Ôl-raddedigion BIPCTM
Tania Williams
Tania.Williams@wales.nhs.uk
Estyniad Ffôn: 73414

Y Ganolfan Addysg Feddygol (YTS)
Donna Morgan
Uwch Weinyddwr Addysg Feddygol
Donna.M.Morgan@wales.nhs.uk
Estyniad Ffôn: 24418

Dr Esyld Watson
Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen (YTS)
Meddyg Ymgynghorol - Meddygaeth Frys
Esyld.Watson@wales.nhs.uk

Y Ganolfan Addysg Feddygol (YBM)
Sarah Moreton
Uwch Weinyddwr Addysg Feddygol
Sarah.Moreton@wales.nhs.uk
Estyniad ffôn 74934

Dr David Samuel
Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen (YBM)
Hepatolegydd Ymgynghorol
David.samuel@wales.nhs.uk

MPEC – (YTC)
(Y Ganolfan Addysg Amlbroffesiwn)
Claire Laidler
Uwch Weinyddwr Addysg Feddygol
Claire.Laidler@wales.nhs.uk
Estyniad Ffôn 52082

Dr Gwilym McMillan
Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen (YTC)
Meddyg Ymgynghorol COTE
Gwilym.McMillan@wales.nhs.uk

**Cwnsela a Chymorth:**

Mae'r Adran Iechyd Galwedigaethol yn cynnig gwasanaeth Ymgynghorol annibynnol sydd ar gael er budd holl weithwyr y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael i'r holl staff gan gynnwys pecynnau Dynion Iach a Menywod Iach, gwasanaethau cwnsela mewnol ac allanol, imiwneiddiadau a brechiadau, hybu iechyd a gwasanaethau ffisiotherapi ar gyfer staff. Gall yr Adran Iechyd Galwedigaethol helpu i hwyluso apwyntiadau ysbyty hefyd.

**Cyfleusterau Llyfrgell / TG:**

Bydd staff cyfeillgar a chymwynasgar y llyfrgell yn eich helpu chi i gael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol i'ch helpu gyda'ch hyfforddiant ac i ddatblygu'ch arferion. Yn ogystal â darparu amrywiaeth o lyfrau, cyfnodolion ac e-adnoddau, rydyn ni'n darparu'r canlynol hefyd:

- Ardaloedd astudio
- Cyfrifiaduron personol i'w defnyddio
- Gliniaduron i'w benthyg (i'w defnyddio yn y Llyfrgell)
- Peiriannau argraffu (gellir codi tâl am hyn)
- Peiriannau sganio
- Gwasanaeth cyflenwi rhwng llyfrgelloedd (ar gyfer llyfrau/cyfnodolion nad ydynt ar gael yn Llyfrgelloedd Cwm Taf)
- Gwasanaeth Chwilio Deunyddiau

Ar ôl cofrestru, gallwch fenthyg hyd at 10 llyfr ar y tro.  Naill ai 4 wythnos neu bythefnos yw'r cyfnod benthyg fel rheol.  Gellir adnewyddu'r benthyciad hyd at 3 gwaith, naill ai ar lein neu trwy ffonio/anfon e-bost neu alw i mewn.

Cysylltwch â staff y Llyfrgell os hoffech drefnu Cyflwyniad i'r Llyfrgell neu gael rhagor o fanylion am ein gwasanaethau a'n cyfleusterau.

**Ysbyty'r Tywysog Siarl**:
Library.princecharles@wales.nhs.uk
01685 721721 Est 8251

**Ysbyty Brenhinol Morgannwg**:
Library.royalglamorgan@wales.nhs.uk
01443 443443 Est 4470

**Ysbyty Tywysoges Cymru:**
LibraryBridgend@wales.nhs.uk
01656 753610

## Ystafell Gyffredin y Meddygon:

Mae gan Ystafell Gyffredin y Meddygon yn Ysbyty’r Tywysog Siarl deledu sgrin lydan â phecyn Sky llawn sy’n cynnwys Ffilmiau, Chwaraeon ac ati. Mae yna ddau gyfrifiadur â chysylltiad â’r rhyngrwyd, ffwrn ficro-don ac oergell, a chyflenwad o ddiodydd poeth. Mae’r meddygon iau yn Ysbyty’r Tywysog Siarl yn trefnu nosweithiau allan yng Nghaerdydd ac mae croeso i bawb ddod i gymdeithasu ar y nosweithiau hyn. Trefnir parti “Diwedd Blwyddyn” bob blwyddyn hefyd. Mae Ystafell Gyffredin y Meddygon yn trefnu pob math o weithgareddau cymdeithasol.

Mae Ystafell Gyffredin y Meddygon yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn agos at y prif risiau ar y llawr uchaf. Ystafell helaeth yw hi â digon o le i eistedd, bwrdd snwcer, oergell, ffwrn ficro-don a theledu lliw Freeview mawr. Darperir amrywiaeth o bapurau newydd yn ddyddiol, o The Times i The Sun. Mae digonedd o de, coffi a bisgedi ar gael i’r meddygon hefyd. Mae bywyd cymdeithasol meddygon iau YBM yn dda iawn, ac mae digonedd o gyfleoedd i ddod i nabod pawb, a dweud y gwir mae nosweithiau allan rheolaidd yr ystafell gyffredin yn nosweithiau i’w cofio. Fel ysbyty cymharol fach, mae pawb yn nabod ei gilydd, ac felly mae sîn cymdeithasol YBM gyda’r gorau yng Nghymru. Trefnir nosweithiau allan yn rheolaidd, ac mae nifer dda o bobl yn dod bob tro. Rydyn ni i gyd yn rhyngweithio ac yn treulio oriau lu yn dod i nabod ein gilydd yn yr ystafell gyffredin! Unigrwydd yw’r un peth nad yw’r ysbyty hwn yn ei gynnig!

Mae Ystafell Gyffredin Ysbyty Tywysoges Cymru gyda’r gorau yn ne Cymru. Mae gan yr ystafell, sy’n cael ei chynnal gan y meddygon iau, stoc dda o gyfleusterau gwneud paned a digonedd o fwyd os ydych chi’n llwglyd. Mae’r ystafell yn gwneud gwahaniaeth mawr i ansawdd bywyd meddygon iau fel y lle perffaith i gymdeithasu dros ginio a rhannu profiadau, da a drwg, am y gwaith, sy’n gallu bod yn llesol dros ben. Mae gennym deledu â sgrin fawr a soffas cyffyrddus, sy’n ddelfrydol am sifftiau nos. Mae’r pwyllgor yn YTC yn cynnal nosweithiau cymdeithasol rheolaidd â chymhorthdal, ynghyd â’r Ddawns Fawr ar ddiwedd y flwyddyn sy’n rhoi cyfle i chi ddod i nabod eich cymheiriaid.

# Atyniadau Lleol

## Rheilffordd Mynydd Brycheiniog:

Dewch am daith hamddenol ar drên stêm i weld rhai o olygfeydd mwyaf godidog Merthyr a mwynhau paned neu bryd yn ein hystafell de. Teithiwch yn un o'n coetsys pob tywydd y tu ôl i hen locomotif stêm trwy olygfeydd godidog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, heibio i Gronfa Ddŵr Taf Fechan i Ddol-y-gaer ar un o reilffyrdd mwyaf poblogaidd Cymru.




## Bike Park Wales:



BikePark Wales yw parc beicio mynydd masnachol maint llawn cyntaf Prydain. Mae yna draciau elît am i waered, ond prif atyniad y lleoliad yw taw hwn yw'r cyfleuster cyntaf i gynnig reidio i fyny dan gymorth ar gyfer beiciau gwlad a rigiau DH.

Mae yna amrywiaeth o draciau, o lwybrau Glas a Du i lwybrau sy'n addas i'r teulu cyfan, wedi eu hadeiladu gan Back on Track o dan lygad gofalus yr adeiladwr llwybrau o fri, Rowan Sorrell. Mae'r lleoliad yn cynnwys canolfan ymwelwyr, caffi, siop feics a chyfleuster llogi beics.

**Profiad y Bathdy Brenhinol:**

Cyfle i weld y Pennau a chlywed yr hanesion.

Mae'r Bathdy'n cyfuno'r crefftwaith gorau â thechnegau arloesol i wneud darnau arian a medalau ar gyfer dros 60 o wledydd.



**Parc Treftadaeth Cwm Rhondda:**




Dewch i'r Pwll - boed law neu hindda! Testament byw i gymuned diwydiant glo byd-enwog Cymoedd y Rhondda. Dilynwch yn olion traed y glowyr a fu'n gweithio yng Nglofa Lewis Merthyr, yma wrth galon Cwm Rhondda – 'Cwm y Glo'.

**Canolfan Siopa McArthur Glenn:**




Mae canolfan siopa McArthur Glenn yn ganolfan siopa awyr agored sy'n gwerthu brandiau ffasiwn moethus a'r stryd fawr am bris disgownt. Mae sinema Odeon a chwrt bwyd yno hefyd, ac fe'i lleolir tua 1 filltir o YTC.



Mae canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig amrywiaeth o siopau, bariau a bwytai fel Poco Poco, Huna Bar, Zina Nia, Corvo Lounge a Franco's.








**Cestyll lleol:**

Mae hi'n werth ymweld â chestyll lleol y Coety, Ogwr a Candlestone, sy'n swatio ymysg twyni tywod pentref pert Merthyr Mawr, a gwelir tîm rygbi Cymru'n ymarfer yn y twyni'n aml. Mae yna barciau gwledig sy'n cynnal digwyddiadau rheolaidd ym Mryngarw a Margam hefyd.









Gallwch ymweld â Gwarchodfa Natur Cynffig, sef un o safleoedd pwysicaf Prydain o ran cadwraeth bywyd gwyllt. Oddi yno, cewch fwynhau golygfeydd bendigedig dros fae Abertawe i Benrhyn Gŵyr.



# Llety Pwrpasol yr Ysbytai

- Cynigir llety am ddim yn yr ysbyty i bob Meddyg Sylfaen yng Nghymru trwy gydol eu Blwyddyn Sylfaen gyntaf.
- Yn yr achosion prin iawn yna lle nad oes llety ar gael, cewch hawlio costau ar gyfer y cyfnod hwn yn lle.
- Isod mae manylion cryno am y llety sydd ar gael o fewn y Bwrdd Iechyd:

## Y Llety

Lleolir **Y Llety** ar safle Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae'n cynnig llety i 96 o bobl mewn cyfleusterau a rennir, ac mae 17 fflat ar gael i barau priod. Mae'r holl lety'n cynnwys ystafelloedd preifat sy'n rhannu cegin, lolfa, toiled ac ystafell ymolchi. Mae holl filiau'r cyfleustodau'n gynwysedig. Mae gwasanaeth glanhau'r holl ardaloedd cymunol yn gynwysedig hefyd. Mae yna gyfleusterau meithrinfa preifat yn YTS hefyd.

## Llys Ansari

Mae **Llys Ansari** yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnig llety modern, diogel ac effeithlon o ran ynni â'r opsiwn o gyfleusterau un person neu i'w rhannu gydag ystafelloedd sengl, ystafelloedd gwely astudio, fflatiau hunanddarpar a thai tair ystafell wely. Gallwch godi ymholiadau pob dydd yn y swyddfa ar y safle a rhoi gwybod i staff y swyddfa am ddiffygion y mae angen eu trwsio. Mae staff cymwys wrth law i ddelio ag argyfyngau 24 awr y dydd. Mae'r adeilad yn darparu ar gyfer 156 o bobl, mae'n fodern, ac yn cynnig gwres canolog a ffenestri gwydr dwbl. Fe'i lleolir ger yr ysbyty ond mewn adeilad ar wahân. Mae'r datblygiad yn cynnig cyfleusterau meithrinfa, golchi dillad, maes parcio â thrwydded, rhestlau beics, swyddfa safle a gerddi wedi eu tirlunio.

## Y Llety

Yn Ysbyty Tywysoges Cymru, mae yna lety ar y safle sy'n cynnwys tai, byngalos a fflatiau. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys bloc golchi dillad a chanolfan gymunedol. Mae'r llety ar y safle ei hun, sy'n ddelfrydol ac yn gyfleus i'n meddygon, yn arbennig ar ôl sifft nos.

### Parcio

Mae yna gyfleusterau parcio rhagorol **AM DDIM** ar gael i staff a chleifion yn BIP Cwm Taf Morgannwg.

# Profiadau Personol o’r Cyrsiau Sylfaen

## Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty’r Tywysog Siarl

Croeso! Welcome! Dr Dai Samuel ydw i, a fi yw Cyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac ILG Rhondda Taf ac Elái. Meddyg lleol ydw i o Ferthyr Tudful ac rwy’n treulio cyfran sylweddol o fy amser gwaith yn fy ysbyty lleol, Ysbyty’r Tywysog Siarl, lle mae fy nghydweithiwr, Dr David Deekollu, yn gweithio fel Cyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen ILG Merthyr a Chynon.

Mae’r ddau ysbyty yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a chyn 2019 bu’r ddau yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Cefais fy mhrofiad cyntaf o astudio a gweithio yn Ysbyty’r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg fel myfyriwr yn y drydedd flwyddyn lle cyflawnais i gylch ym maes Meddygaeth, Llawdriniaeth, a Thrawma ac Orthopaedeg. Es i ymlaen wedyn i weithio yn Ysbyty’r Tywysog Siarl ar gyfer fy mlynyddoedd FY1 ac FY2. Diolch i’r profiadau clinigol gefais i, yn ogystal â’r croeso cynnes a’r ffrindiau wnes i, roedd hi’n glir i mi’n gynnar iawn taw gyrfa ym maes CTM oedd beth roeddwn i am ei wneud yn yr hirdymor!

Ers hynny, rydw i wedi gweithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty’r Tywysog Siarl wrth gyflawni fy Hyfforddiant Craidd a Hyfforddiant Uwch, ac erbyn hyn rydw i wedi dychwelyd i’r Bwrdd Iechyd fel Hepatolegydd Ymgynghorol. Rwy’n teimlo taw un o’r dangosyddion gorau o ba mor groesawgar yw ein hysbytai, a pha mor dda yw’r hyfforddiant, yw’r nifer fawr o hyfforddeion sydd bellach yn gweithio ynddynt fel Meddygon Ymgynghorol. Mae tri chydweithiwr a fu’n gweithio gyda fi fel Cofrestryddion bellach yn gydweithwyr i mi fel Meddygon Ymgynghorol!

Mae’r ddau ysbyty’n groesawgar dros ben ac mae ganddynt hanes ac enw da rhagorol, nid yn unig wrth recriwtio a chadw meddygon, ond hefyd fel dau o’r ysbytai lle mae nifer y ceisiadau sy’n dod i mewn yn fwy na nifer na swyddi hyfforddi bob blwyddyn bron yn ddi-ffael. Rydyn ni’n cynnig swyddi ar gylch Blwyddyn Sylfaen draddodiadol fel Meddygaeth a Llawdriniaeth, ond mae yna gyfleoedd hefyd i gael profiad o Offthalmoleg, meddygaeth y Glust, y Trwyn a’r Gwddf, Llawdriniaeth Fasgwlaidd a Gofal Lliniarol, i enwi ond ychydig! Yn ogystal, eleni bydd Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cynnig hyfforddiant cylch LIFT am y tro cyntaf, lle bydd yr Hyfforddeion Sylfaen yn gweithio mewn lleoliadau ysbyty, ond yn treulio un diwrnod yr wythnos mewn Gofal Sylfaenol, dan oruchwyliaeth ein cydweithwyr gofal sylfaenol fel Goruchwylwyr Addysgol. Rydyn ni’n cynnig Cylch Academaidd sy’n caniatáu i’n hyfforddeion i gydategu eu Hyfforddiant Clinigol gydag Addysg Feddygol o gyfnod cynnar yn eu gyrfa, gyda’r cyfle i ennill Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Feddygol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chyfrannu’n sylweddol at waith y Gyfadran Addysg Feddygol!

Mewn blynyddoedd diweddar, rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i allu ychwanegu Canolfan Addysg a Hyfforddiant bwrpasol rhwng y 2 ysbyty ym Mharc Iechyd Kier Hardie, sy’n darparu cyfleusterau labordai i hyfforddi mewn sgiliau clinigol arbenigol yn ogystal â “wardiau” pwrpasol ar gyfer arholiadau clinigol ac Asesiadau OSCE.

Gan Ysbyty Morgannwg Brenhinol mae un o Wasanaethau Meddygaeth Acíwt mwyaf Cymru, os nad Prydain, gyda thîm o Feddygon Ymgynghorol gweithgar sy'n angerddol ynghylch creu gwahanol amgylcheddau dysgu.  Mae yna gynlluniau hefyd i ddatblygu Hyb Diagnosteg yn yr ysbyty.

Mae'r ffaith fod Ysbyty'r Tywysog Siarl yn agos at yr A470 a'r A465, dau o'r prif gefnffyrdd trwy Gymru, yn ogystal â bod ar gyrion y Parc Cenedlaethol, yn golygu bod yr Adran Argyfyngau'n darparu golwg fendigedig o'r byd Meddygaeth Trawma ac Argyfwng.

Y peth sy'n gwneud ein hysbytai'n unigryw yn fy marn i, yw'r ymdeimlad o fod yn rhan o deulu o fewn teulu! Mae cyfran uchel o'n staff, Meddygol ac Anfeddygol, yn byw yn yr ardal leol ac yn eu hadnabod ei gilydd yn ogystal â'r cleifion. Mae hyn yn darparu profiad gofal unigryw ar gyfer ein cleifion. Gyda'r ddau ysbyty'n agos at Gaerdydd, mae teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn hawdd, ond yr un pryd, mae'n caniatáu i hyfforddeion brofi amgylchedd gwahanol iawn i'r dinasoedd mwy. Mae ein cleifion yn aml yn hanu o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, sy'n dod â'i sialensiau ei hun, ond mae'n cynnig golwg rhagorol i fyfyrwyr ar afiechydon cymhleth. Mae Bannau Brycheiniog ar stepen drws Ysbyty'r Tywysog Siarl gan ganiatáu mynediad rhwydd at weithgareddau awyr agored, ac mae Ysbyty Brenhinol Morgannwg llai na 10 milltir o ganol y ddinas.

Rwy'n gobeithio bod hyn wedi rhoi cipolwg cryno iawn ar y cyfleoedd aruthrol y mae gan Gwm Taf Morgannwg i'w cynnig, a beth sy'n parhau i ddenu llawer iawn o geisiadau i weithio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Rwy'n gobeithio cael cwrdd a gweithio gyda llawer ohonoch chi yn y blynyddoedd sydd i ddod!

Dr Dai Samuel

Cyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen RTE ILG – Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Profiad Personol o'r Cyrsiau Sylfaen

## Ysbyty Tywysoges Cymru

Yma yn Ysbyty Tywysoges Cymru (YTC) ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rydyn ni fel Tîm Sylfaen yn awyddus i greu amgylchedd sy'n cefnogi holl anghenion addysgol Hyfforddeion Sylfaen mewn ffordd broffesiynol a deinamig.

Rydw i wedi bod yn rôl Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen ers Hydref 2019, ac rydw i wir wedi mwynhau gweithio gyda hyfforddeion trwy flwyddyn sydd wedi bod yn ymestynnol dros ben.

Mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi bod ynghlwm wrth Hyfforddiant Meddygol i Israddedigion ac Ôl-raddedigion erioed, ac adlewyrchir hyn yn y rhwydwaith helaeth o glinigwyr o holl gwmpas yr arbenigeddau sy'n cynnal Addysg yn yr ysbyty.

Fel Ysbyty Cyffredinol Rhanbarthol, mae yna ymdeimlad cadarn o gymuned ac Ystafell Gyffredin weithgar iawn i'r staff, sy'n creu amgylchedd gweithio cyfeillgar ar gyfer yr hyfforddeion.  Mae llawer o'n hyfforddeion yn dewis dychwelyd i weithio gyda ni ar ôl cwblhau eu hyfforddiant, sydd bob amser yn beth calonogol iawn i ni fel Adran Ôl-raddedigion.

Dr Gwilym McMillan

Geriatregydd Ymgynghorol

Cyfarwyddwr y Rhaglen Sylfaen (YTC)